Ataliadau seddi gweithredwyr ar gyfer cyfarpar gwaith symudol mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth

Taflen wybodaeth HSE



Cyflwyniad

Mae'r daflen wybodaeth hon yn rhoi cyngor i gyflogwyr a'r hunangyflogedig ar y gofynion i osod a defnyddio ataliadau seddi gweithredwyr mewn tractorau, peiriannau hunanyredig ac unrhyw gyfarpar gwaith amaethyddol neu goedwigaeth symudol arall. Fel arfer mae 'Ataliadau seddi gweithredwyr' yn golygu gwregysau diogelwch neu strapiau arffed.

Yr hyn y mae angen i gyflogwyr ei wneud

Mae Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1998 (PUWER 98) yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr sicrhau bod gan bob peiriant symudol a ddefnyddir yn y gwaith system atal addas wedi'i gosod ar seddi, gan gynnwys seddi teithwyr, lle y mae risg y caiff unrhyw un sy'n cael ei gludo ei wasgu rhwng y peiriant a'r ddaear os bydd y peiriant yn troi drosodd.

Yr hyn y mae angen i weithgynhyrchwyr ei wneud

O dan Reoliadau Cyflenwi Peiriannau (Diogelwch) 1992 (fel y'i diwygiwyd), pan fydd strwythurau diogelu rhag rholio (ROPS) neu fannau gosod ar gyfer y cyfryw strwythurau wedi'u gosod ar beiriant, mae'n ofynnol i weithgynhyrchwyr osod ataliadau gweithredwyr ar seddi, gan gynnwys seddi teithwyr, sy'n cadw gyrwyr yn eu seddi heb gyfyngu ar unrhyw symudiadau y mae angen eu gwneud i yrru'r peiriant. (DS ar gyfer peiriannau symudol a ddefnyddir yn y gwaith, mae angen i weithgynhyrchwyr ddarparu mannau gosod ar gyfer strwythurau diogelu rhag rholio pan fo risg y bydd y peiriant yn rholio drosodd.) NI chwmpesir tractorau gan y Rheoliadau Cyflenwi Peiriannau ac nid oes unrhyw reoliadau sy'n mynnu yn uniongyrchol bod gweithgynhyrchwyr yn darparu ataliadau gweithredwyr ar gyfer seddi tractorau.

Taflen Wybodaeth Amaethyddiaeth Rhif 37W

Damweiniau

Er bod cabanau diogelwch wedi lleihau'n sylweddol nifer y marwolaethau a achosir gan beiriannau yn troi drosodd, serch hynny mae llawer o anafiadau o hyd y gellir eu hosgoi trwy ddefnyddio ataliadau sedd, ee:

- gyrwyr yn cael eu taflu o beiriannau nad oes ganddynt ond bar rholio;
- gyrwyr neu deithwyr yn cael eu taflu trwy ddrysau neu ffenestri cabanau, neu'n cael eu hanafu trwy gael eu taflu o gwmpas y caban.

Ni chyfyngir damweiniau lle y mae peiriannau yn troi drosodd i lethrau serth. Digwyddodd hanner cant y cant o'r damweiniau troi drosodd yr ymchwiliwyd iddynt ar lethrau â graddiant o 10° neu lai a digwyddodd hanner y rhain ar raddiant o 5° neu lai.

Gosod ataliadau sedd

Dylai cyflogwyr osod ataliadau sedd os defnyddir y peiriant ar gyfer gweithrediadau lle y mae risg y bydd yn troi drosodd pan allai'r gyrrwr gael ei wasgu rhwng y peiriant a'r ddaear. Pan fydd gan sedd fannau gosod eisoes ar gyfer ataliad sedd, mae gosod strap neu wregys diogelwch yn rhad iawn.

Mae HSE o'r farn y gellir rhagweld y cyfryw risgiau yn y sefyllfaoedd canlynol, yn seiliedig ar hanes damweiniau. Gallai ataliadau sedd leihau'r tebygolrwydd y caiff rhywun ei anafu pan fydd yn:

- defnyddio peiriant y gosodwyd bar rholio neu gaban heb ddrws arno lle y gallai droi drosodd 90°, ee ar dir garw neu lethrog, neu gydag atodiadau a/neu amgylchiadau a allai gyfrannu at achosi i'r peiriant droi drosodd;
- defnyddio tractor â chaban ar dir llethrog gydag atodiadau a/neu amgylchiadau a allai arwain at y gyrrwr yn colli rheolaeth a'r tractor yn troi drosodd, ee ôl-gerbydau llwythog, taenu calch neu wrtaith, tynnu coed allan mewn coedwigoedd ac ati;
- defnyddio tractor â chaban ar gyfer rholio clampiau silwair neu ladd gwair ar ochrau serth ffosydd;
- defnyddio peiriant hunanyredig y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio ar dir serth, ee peiriannau coedwigaeth a cherbydau sy'n addas ar gyfer pob math o dir (ac eithrio ar gyfer beiciau cwad sy'n addas ar gyfer pob math o dir);
- defnyddio wagen fforch godi tir garw y bwriedir iddi gael ei defnyddio ar lethrau neu dir garw neu pan fydd yn defnyddio wagen fforch godi wedi'i gwrthbwyso sydd â mast neu far/cawell rholio ar dir anwastad.

Mae gan y mwyafrif o seddi tractorau ddarpariaeth ar gyfer gosod strapiau arffed er nad yw'r rhain bob amser yn amlwg. Holwch y gweithgynhyrchwr ble y mae'r mannau gosod cywir a dilynwch y cyfarwyddiadau ar gyfer eu gosod.

Mae sefyllfaoedd lle y mae'n llai tebygol y bydd angen ataliadau sedd neu lle y mae ataliadau sedd yn amhriodol yn cynnwys:

- defnyddio peiriannau hunanyredig megis cynaeafyddion, chwistrellwyr hunanyredig neu gynaeafyddion betys siwgr, cynaeafyddion porthiant neu gynaeafyddion tatws;
- defnyddio beiciau cwad sy'n addas ar gyfer pob math o dir am nad oes ganddynt unrhyw strwythur diogelu rhag rholio ac felly byddai ataliadau sedd yn beryglus;
- defnyddio unrhyw beiriant na osodwyd unrhyw ddyfais ddiogelu rhag rholio arno. (DS Mae'r mast ar wagen fforch godi yn sicrhau na all ond troi drosodd ar ei hochr felly gellir gosod ataliadau sedd ar y peiriannau hyn heb unrhyw ddyfeisiau diogelu rhag rholio ychwanegol.)

Pan nad oes gan seddi unrhyw fannau gosod ar gyfer ataliadau sedd, efallai mai'r unig opsiwn arall yw rhoi seddi newydd yn eu lle. Efallai na fydd angen gwneud hynny os gallwch ddangos bod yr anawsterau technegol sy'n gysylltiedig â gosod sedd newydd, sicrhau bod ei mannau gosod yn ddigon cadarn a'r costau ychwanegol sydd ynghlwm wrth hynny yn fwy na'r risg yn gysylltiedig â pheidio â gosod ataliad sedd, hy y risg y bydd y peiriant yn troi drosodd yn y sefyllfaoedd lle y'i defnyddir.

Pan osodir sedd newydd mewn peiriant sicrhewch y gall mannau gosod y sedd wrthsefyll y pwysau ychwanegol a grëir gan berson sydd wedi'i strapio ynddo pan fydd y peiriant yn troi drosodd. Dylech bob amser geisio cyngor y gweithgynhyrchwr ar y mater hwn.

Yn achos seddi teithwyr nad oes ganddynt unrhyw fannau gosod ar gyfer ataliadau sedd gall fod yn haws rhoi seddi newydd yn eu lle, ond unwaith eto mae'n rhaid i fannau gosod y sedd fod yn ddigon cadarn fel na fydd y sedd yn datgysylltu os bydd y peiriant yn troi drosodd.

PEIDIWCH BYTH â drilio na weldio fframiau cabanau na bariau rholio er mwyn gosod mannau gosod ar gyfer ataliadau sedd arnynt. Gallai hynny wanhau'r strwythur ac annilysu ei ardystiad diogelwch.

Peiriannau symudol a dynnir a pheiriannau symudol gosod

Ar beiriannau a dynnir neu beiriannau gosod mae'r un gofynion i ddiogelu gweithredwyr yn berthnasol, hy os gosodwyd dyfais ddiogelu rhag rholio ar y peiriant a bod risg y caiff cyflogeion eu gwasgu rhwng y peiriant a'r ddaear o ganlyniad i'r peiriant yn troi drosodd, dylid gosod ataliadau sedd.

Plant

Mae Rheoliadau Atal Damweiniau i Blant mewn Amaethyddiaeth 1998 yn gwahardd plant dan 13 oed rhag teithio mewn tractorau neu beiriannau amaethyddol hunanyredig a gynlluniwyd neu a addaswyd yn bennaf i'w defnyddio mewn amaethyddiaeth ac sy'n cael eu defnyddio yn ystod gweithrediadau amaethyddol neu sy'n mynd i'r cyfryw weithrediadau neu'n dod oddi yno. Nid yw gosod strap arffed teithiwr mewn tractor neu beiriant amaethyddol hunanyredig yn newid y sefyllfa gyfreithiol hon.

Er nad effeithir ar gerbydau hunanyredig eraill na chawsant eu cynllunio na'u haddasu yn bennaf i'w defnyddio mewn amaethyddiaeth, megis cerbydau sy'n addas ar gyfer pob math o dir neu rai wagenni fforch godi, gan y gwaharddiad hwn, fel arfer ni ddylech gludo plant yn y cyfryw gerbydau nac arnynt oni bai eu bod mewn sedd teithiwr ac yn gwisgo gwregys diogelwch a gynlluniwyd ac a osodwyd yn gywir.

Dyletswydd i wisgo gwregysau diogelwch

Mae'r dyletswyddau cyfreithiol canlynol o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 yn berthnasol i gyflogwyr, pobl hunangyflogedig a chyflogeion:

- Mae'n ddyletswydd ar gyflogwyr i sicrhau, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, y darperir gwybodaeth, hyfforddiant a goruchwyliaeth i sicrhau diogelwch eu cyflogeion yn y gwaith.
- Mae'n ddyletswydd ar bobl hunangyflogedig i gyflawni eu gorchwyl yn y fath fodd fel nad ydynt yn eu hamlygu eu hunain i risg.
- Mae'n ddyletswydd ar gyflogeion i gymryd gofal rhesymol o'u hiechyd a'u diogelwch eu hunain.

Ym mhob achos gellid cymhwyso'r gofynion hyn i fethiant i wisgo ataliadau sedd pan oedd risg ragweladwy y câi rhywun ei anafu trwy beidio â'u gwisgo.

Gwybodaeth bellach

Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth ac am ddim ar gael trwy archebu drwy'r post gan HSE Books, PO Box 1999, Sudbury, Suffolk CO10 2WA Ffôn: 01787 881165 Ffacs: 01787 313995 Gwefan: www.hsebooks.co.uk (Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth hefyd ar gael o siopau llyfrau a gellir lawrlwytho taflenni am ddim o wefan HSE: www.hse.gov.uk)

Er mwyn cael gwybodaeth am iechyd a diogelwch ffoniwch Linell Wybodaeth HSE Ffôn: 0845 345 0055 Ffacs: 0845 408 9566 Ffôn testun: 0845 408 9577 e-bost: hse.infoline@natbrit.com neu ysgrifennwch i Gwasanaethau Gwybodaeth HSE, Parc Busnes Caerffili, Caerffili CF83 3GG.

Mae'r daflen hon yn cynnwys nodiadau ar arfer da nad ydynt yn orfodol ond a allai fod yn ddefnyddiol wrth i chi ystyried yr hyn y mae angen i chi ei wneud.

© ⓗ Hawlfraint y Goron Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn am, heblaw at ddibenion hysbysebu, arnodi neu ddibenion masnachol. Cyhoeddwyd gyntaf 05/00. Cydnabyddwch y ffynhonnell fel HSE.